COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 20 CHWEFROR 2019 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| CA Green | DG Howells | A Hussain | RM James |
| B Jones | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | DG Owen | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Radcliffe

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Deborah Exton | Rheolwr Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebaue |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Mary Williams | Rheolwr Grŵp - Phrif Gyfrifydd |

276. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y Datganiadau o Fuddiant canlynol:

Datganodd y Cynghorydd E Venables fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda – Y Dreth Gyngor: Gostyngiad Dewisol yn y Dreth Gyngor ar Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi oherwydd bod ganddi eiddo gwag sy'n destun profiant. Tynnodd y Cynghorydd Venables yn ôl o'r cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd L Walters fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda – Y Dreth Gyngor: Gostyngiad Dewisol yn y Dreth Gyngor ar Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi oherwydd ei bod hi'n gwerthu eiddo gwag sy'n destun profiant ar hyn o bryd. Tynnodd y Cynghorydd Walters yn ôl o'r cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd C Webster fuddiant personol yn eitem 7 yr agenda – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23 gan fod ei mab yn cael trafnidiaeth ysgol i ysgol arbenigol y tu allan i'r sir.

Datganodd y Cynghorydd B Jones fuddiant personol yn eitem 10 yr agenda – Y Dreth Gyngor: Gostyngiad Dewisol yn y Dreth Gyngor ar Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi oherwydd bod gan ei frawd eiddo gwag.

Datganodd y Cynghorydd G Thomas fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 yr agenda – Y Dreth Gyngor: Gostyngiad Dewisol yn y Dreth Gyngor ar Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi oherwydd gadawyd cyfran o eiddo gwag iddo sy'n destun profiant. Tynnodd y Cynghorydd Thomas yn ôl o'r cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

277. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNIAD: Y dylai cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019 gael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

278. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor am ymrwymiadau yr oedd ef a'i Gydweddog wedi eu mynychu yn ystod y mis diwethaf, a oedd yn cynnwys cyngerdd elusen ar gyfer gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn Theatr Sony, Pen-y-bont ar Ogwr, gwasanaeth diolchgarwch i nodi 30 mlynedd ers i Ymddiriedolaeth Hunangymorth Sandville gael ei chychwyn, Gemau OlympAge blynyddol y Gaeaf a chyflwyno tystysgrifau yng ngwobrau'r Coleg Paratoi Milwrol. Yn ogystal, roedd y Maer a'i gydweddog hefyd wedi mynychu cynhyrchiad Ysgol Porthcawl o'r sioe 'Oliver', gwasanaeth yr Holocost yng Nghaerdydd, gwobrau Adeiladu Rhagoriaeth, beirniadu gwobrau Dinasyddiaeth, lansio gwobrau Cyn-filwyr Cymru yng Nghaerdydd, Caffi Darllen yn Ysgol Fabanod Bryntirion a lansio Cyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Y Dirprwy Arweinydd

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod i'r Cyngor am gynnydd wrth greu cyfleuster cymunedol newydd yng Nghlwb Bechgyn a Merched Nantymoel, a oedd yn golygu creu ymddiriedolaeth elusennol, a dywedodd y bydd y cyfleuster yn cael ei lansio'n swyddogol yn ddiweddarach yr wythnos hon. Bydd y cyfleuster yn ganolfan barhaol i'r tîm plismona cymunedol a bydd hefyd yn gweithredu fel Canolfan Dreftadaeth Cwm Ogwr ac atyniad ymwelwyr i gysylltu Parc Gwledig Bryngarw trwy Lwybr Treftadaeth newydd Cwm Ogwr. Byddai cyfleusterau hurio beiciau'n cael eu darparu ym Mryngarw hefyd ynghyd ag arddangosiadau gwybodaeth wedi'u cysylltu ag ap lleisiol ar hyd y llwybr. Dywedodd y byddai celfwaith cyhoeddus a seddau cymunedol newydd yn cael eu lleoli yn safle hen Ganolfan Berwyn hefyd.

Aelod y Cabinet dros Gymunedau

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau wrth y Cyngor fod preswylwyr Porthcawl yn cael eu gwahodd i fynychu sesiwn wybodaeth galw heibio lle y gallant helpu i ddylanwadu ar gam nesaf y gwaith ar amddiffynfeydd rhag llifogydd y dref. Bydd y cyfranogwyr yn gallu gofyn cwestiynau a chynnig adborth ar y cynigion, sy'n ategu cynlluniau adfywio ehangach Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y dref. Bydd y sesiwn wybodaeth galw heibio yn cael ei chynnal ym Mhafiliwn y Grand ddydd Iau 28 Chwefror rhwng 1pm a 7pm.

Dywedodd wrth y Cyngor hefyd fod Gwobrau Adeiladu Rhagoriaeth blynyddol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol wedi cael eu cynnal yn ddiweddar i amlygu enghreifftiau rhagorol o ddatblygiad diogel, cynaliadwy, arloesol o ansawdd uchel yn y Fwrdeistref

Sirol. Dywedodd fod y tîm Rheoli Adeiladu yn cynnal 7,000 o archwiliadau bob blwyddyn ac y bydd yr enillwyr yn symud ymlaen i wobrau rhanbarthol de Cymru a gynhelir ym mis Ebrill.

Gobeithiai y byddai'r Aelodau'n croesawu'r Cynllun Ynni Clyfar a gymeradwywyd gan y Cabinet ddoe. Dywedodd fod y Fwrdeistref Sirol yn un o dair ardal yn unig a ddewiswyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) i arloesi cynlluniau ynni carbon isel, ac yr amcangyfrifir y gallai hyd at £7.4 biliwn gynyddu'r economi leol erbyn 2050. Mae prosiectau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys rhwydwaith gwres Pen-y-bont ar Ogwr i gysylltu cartrefi ac adeiladau cyhoeddus, a chynllun Dŵr Mwynglawdd Caerau sy'n defnyddio dŵr tanddaear fel ffynhonnell wres i gynhesu cartrefi yng Nghwm Llynfi. Y Cyngor yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddatblygu strategaeth ynni o'r fath a bwriedir iddi weithredu fel catalydd i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dyfu i fod yn barth arloesi carbon isel. Yn ogystal, mae gwaith wedi cael ei wneud gyda'r Catapwlt Systemau Ynni i dreialu math o reolaeth ynni ddatblygedig ar gyfer y cartref, a allai ddod yn nodwedd gyffredin mewn cartrefi yn ystod y degawd nesaf.

<u>Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Mr Clive Richards o Gefn Cribwr wedi marw'n ddiweddar. Roedd Mr Richards wedi dod i gyfarfod diweddar Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet i drafod ei brofiadau fel gofalwr maeth tymor hir ar gyfer yr awdurdod. Byddai llythyr cydymdeimlo'n cael ei anfon at deulu Mr Richards ar ran y Cyngor.

Soniodd wrth yr Aelodau hefyd am y gwaith sydd wedi cael ei wneud i sefydlu cymunedau sy'n deall dementia lle mae pobl yn fwy ystyriol, goddefgar a chefnogol o'r cyflwr. Roedd yn falch iawn o roi gwybod i'r Aelodau fod chwe pherson ifanc yn eu harddegau o Ysgol Gyfun Gatholig yr Archesgob McGrath ym Mracla wedi achub y blaen trwy arwain ymgyrch i wneud eu cymuned yn fwy addas i bobl sy'n byw gyda dementia, gan gwblhau hyfforddiant arbenigol. O ganlyniad i hyn, fe'u cydnabuwyd yn Hyrwyddwyr Dementia gan y Gymdeithas Clefyd Alzheimer. Mae'r myfyrwyr yn gwneud defnydd da o'r hyfforddiant hwn trwy gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith eu cyd-fyfyrwyr, busnesau lleol a phreswylwyr. Maen nhw wedi cynnal sesiwn wybodaeth leol ac wedi ffurfio partneriaeth â Thîm Rhwydwaith Cymunedol Integredig y Dwyrain, sy'n cynnwys staff o'r cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU), i gynnal sesiynau ychwanegol a helpu i ledaenu ymwybyddiaeth. Roedd yn falch iawn o glywed am bobl ifanc yn cymryd rhan yn y fenter Deall Dementia a gobeithiai y byddai'r Aelodau'n dangos eu cefnogaeth iddynt pan fyddant yn ymweld â'r Cyngor ym mis Mawrth i helpu i nodi Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd.

<u>Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

Roedd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn falch iawn â chanlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ynglŷn â chynigion i sefydlu canolfan adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd ar gyfer disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth (ASD). Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid datblygu cyfleuster ar gyfer disgyblion ag ASD, a dywedodd Estyn fod y cynigion yn dangos sail resymegol eglur. Hon fydd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn y Fwrdeistref Sirol i gynnwys cyfleuster o'r fath, ac yn sgil y ffaith bod un eisoes wedi'i sefydlu yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, bydd disgyblion yn gallu trosglwyddo'n ddidrafferth gan barhau i dderbyn eu haddysg yn yr iaith o'u dewis. Dywedodd y bydd hyn o gymorth mawr i blant ag ASD ac y bydd yn helpu i leihau'r straen sy'n gysylltiedig â newid o'r fath.

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod trefniadau ar waith i weithredu cynllun Cynnig Gofal Plant newydd Llywodraeth Cymru ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Diben y cynllun yw darparu cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant i rieni sy'n gweithio, a bydd yn cynnig tri deg awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir am hyd at bedwar deg wyth wythnos y flwyddyn. Bydd ar gael i rieni cymwys sy'n gweithio o'r tymor ar ôl pen-blwydd plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn bedair oed. Oherwydd bod plant yn gallu dechrau mynd i'r ysgol o dair blwydd oed yn y Fwrdeistref Sirol, prif fantais y cynllun yw'r ffaith bod y cynnig hefyd ar gael ar gyfer gofal plant yn ystod naw wythnos o wyliau'r ysgol. Bydd dyddiad dechrau'r cynllun yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn, a rhoddir diweddariad arall i'r Aelodau pan fydd y manylion terfynol wedi cael eu cadarnhau.

Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio ddiweddariad i'r Aelodau ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr yn Rest Bay. Mae'r gwaith o adeiladu'r ganolfan yn mynd rhagddo'n dda, ac mae'r holl gyflwyniadau a dderbyniwyd gan ddarpar denantiaid y café bistro newydd, sydd wedi'i leoli i fyny'r grisiau, a'r ciosg hufen iâ i lawr y grisiau, wedi cael eu prosesu, a'r cynigion a ffefrir wedi'u hamlygu. Byddai'n parhau i roi gwybod i'r Aelodau am ddatblygiadau.

Llongyfarchodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio egin wneuthurwyr rhaglen ddogfen o Ysgol Bryn Castell sydd wedi bod yn gweithio gyda Ffilm Cymru i greu darn byr ynglŷn â democratiaeth, ac sydd wedi cael eu henwebu am wobr genedlaethol. Dywedodd y bydd eu hymdrechion yn cael eu dangos mewn digwyddiad mawr ei fri yn yr Odeon yn Leicester Square yn Llundain fis nesaf, lle y'u henwebwyd am wobr 'Rhaglen Ddogfen Orau' yng ngwobrau 'Into Film'. Mae eu ffilm yn dilyn grŵp o bobl ifanc sy'n amlinellu newidiadau maen nhw'n bwriadu eu gwneud i'w bywydau ac yn eu dilyn wrth iddynt ymweld â swyddfeydd y Cyngor i drafod sut gallant gyflawni hyn gyda Chynghorwyr ac Aelodau Seneddol, ac mae hefyd yn cynnwys interliwd gerddorol.

Cyhoeddodd y bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Estyn ar fin arolygu sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi ysgolion a darpariaeth addysg. Mae eu swyddogion yn y Cyngor yr wythnos hon i gynnal arolygiad rhagarweiniol, a byddant yn dychwelyd ym mis Mawrth i gynnal arolygiad llawn. Dywedodd mai addysg yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor hwn o hyd, a'i fod yn falch o'r ffordd y mae ysgolion lleol yn cael eu cefnogi. Byddai'r Aelodau'n cael rhagor o fanylion am yr arolygiad cyn gynted ag y bydd y canfyddiadau'n hysbys.

Prif Weithredwr Dros Dro

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi dweud y byddai'n anodd iawn cynllunio o flaen llaw pe na cheir cytundeb Brexit, ac felly ei fod wedi sefydlu Bwrdd Prosiect i ystyried y risgiau hynny.

## 279. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi mynychu digwyddiad lansio'r prosiect Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar, sef prosiect a gynlluniwyd i helpu pobl i oresgyn rhwystrau a allai eu hatal rhag datblygu sgiliau newydd a chael gwaith. Dywedodd fod helpu pobl i ddychwelyd i waith yn arwain at fuddion niferus ac amrywiol, ac o fewn yr uned deulu, fod torri cylch diweithdra'n rhoi esiampl gadarnhaol i blant ac yn helpu i ddarparu modelau rôl sy'n hanfodol i'w datblygiad llwyddiannus. Mae hefyd yn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus wrth i aelwydydd ddod yn gryfach yn economaidd. Bydd digwyddiad Ysgol Fusnes Dros Dro yn cael ei gynnal fis nesaf i

helpu pobl i gael gwybod mwy am sefydlu eu busnes eu hunain. Anogodd yr Aelodau i gysylltu â thîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr os hoffent ddysgu mwy am y fenter.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor ei fod wedi rhoi diweddariad i'r Aelodau yn flaenorol ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn cefnogi Bridgend Ford, a'i fod wedi cyfarfod â rheolwyr, staff ac undebau llafur yn y ffatri. Byddai'n dychwelyd i gyfarfod â nhw eto yn fuan iawn a byddai'n rhoi diweddariad arall i'r Aelodau cyn gynted ag y byddai'r cyfarfod hwnnw wedi digwydd. Gobeithiai y byddai'r ffatri'n llwyddiannus yn ei chais i adeiladu cerbyd gyriant pedair olwyn newydd Ineos Automotive, ond pe byddai'r gwaethaf yn digwydd, mae cynlluniau fel Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn barod i helpu'r gweithwyr yr effeithir arnynt.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod y Cyngor hefyd yn parhau i ymgysylltu ag ABMU ynglŷn ag Ysbyty Maesteg, a'i fod yn falch o weld bod y penderfyniad ynglŷn â gwasanaethau dydd wedi cael ei ohirio fel y bydd yr awdurdod iechyd newydd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn penderfynu yn y pen draw ar sut y bydd hyn yn cael ei ddarparu yn y dyfodol. Byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nhw ar gynigion i wella rôl yr ysbyty yn y dyfodol.

280. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2022 ADOLYGWYD AR GYFER 2019-20

Ceisiodd y Prif Weithredwr Dros Dro gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2018-22.

Dywedodd fod gan y Cyngor ddyletswydd i osod amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i osod amcanion gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Dywedodd fod y Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2018-22 yn amlinellu tri amcan llesiant corfforaethol a'i fod wedi cael ei adolygu ar gyfer 2019-20. Wrth adolygu'r Cynllun, mae'r Cyngor wedi datblygu ei amcanion llesiant ymhellach a bydd y blaenoriaethau hyn, wedi iddynt gael eu cymeradwyo, yn ffurfio amcanion llesiant y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i amcanion gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Adroddodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi ystyried y cynllun drafft diwygiedig ar 14 Ionawr 2019 ac wedi gwneud cyfres o sylwadau adeiladol ynglŷn â newidiadau ac ychwanegiadau. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a, lle bynnag y bo'n ymarferol, gwnaed diwygiadau priodol i'r Cynllun drafft. Ystyriodd y Cabinet Gynllun Corfforaethol 2018-2022, a ddiwygiwyd ar gyfer 2019-20, ar 12 Chwefror 2019. Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried amgylchiadau sy'n newid a chynnydd a wnaed tuag at yr amcanion llesiant er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wedi iddynt gael eu cymeradwyo, bydd y Cynllun yn disodli'r Cynllun Corfforaethol presennol ac yn cael ei gefnogi gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, cynlluniau busnes Cyfarwyddiaethol a chynlluniau gwasanaeth.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, a fu'n drwyadl iawn wrth graffu ar y Cynllun Corfforaethol ac a gyfrannodd at y Cynllun diwygiedig. Dywedodd fod y Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu canolfan chwaraeon dŵr ym Mhorthcawl i'w wella fel cyrchfan i dwristiaid; ailddatblygu Neuadd Dref Maesteg yn ganolfan celfyddydau a diwylliannol, datblygu cynlluniau gwres carbon isel, ad-drefnu'r ystâd, datblygu'r rhaglen trawsnewid digideiddio a pharhau i fuddsoddi ym Mand B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

Gofynnodd Aelod o'r Cyngor pam nad oedd ffigurau nifer yr ymwelwyr wedi'u cynnwys ar gyfer canol tref Maesteg. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd niferoedd ymwelwyr yn

cael eu mesur ym Maesteg ar hyn o bryd ac y byddai swyddogion yn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am ymarferoldeb mesur nifer yr ymwelwyr. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro wrth y Cyngor nad oes modd o gyfrif nifer yr ymwelwyr yn gywir yng nghanol tref Maesteg gan nad oes camerâu yno, ond y gellid archwilio cost gosod camerâu.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol 2018-22, a adolygwyd ar gyfer 2019-20.

281. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019-20 I 2022-23

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23, a oedd yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2019-23, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2019-20 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018-19 i 2028-29.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei harwain yn sylweddol gan flaenoriaethau'r Cyngor, ac er y bu gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn, bod Cyllid Allanol Cyfanredol (AEF) wedi golygu bod angen cwtogi'r gyllideb yn sylweddol iawn ar draws meysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni swyddogaeth arwyddocaol iawn yn yr economi leol; mae'n gyfrifol am wariant gros blynyddol o oddeutu £400 miliwn, ac ef yw'r cyflogwr mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Cyngor fod y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ochr yn ochr â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-23. Mae'r ddwy ddogfen yn cyd-fynd â'i gilydd, sy'n golygu bod modd gwneud cysylltiadau penodol rhwng blaenoriaethau'r Cyngor a'r adnoddau a fwriadwyd i'w cefnogi.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu'r egwyddorion a'r tybiaethau manwl sy'n sbarduno cyllideb a phenderfyniadau gwario'r Cyngor, a'r cyd-destun ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo, ac yn lliniaru unrhyw risgiau a phwysau ariannol wrth symud ymlaen, ar yr un pryd â manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro Drosolwg Ariannol Corfforaethol i'r Cabinet a dywedodd y bydd cyllideb gros y Cyngor oddeutu £420 miliwn ac mai'r gyllideb refeniw net a gynlluniwyd ar gyfer 2019-20 yw £270.809 miliwn. Amlinellodd y Cyd-destun Ariannol Strategol a dywedodd wrth y Cyngor fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i gosod yng nghyd-destun cynlluniau gwariant economaidd a chyhoeddus y DU, a blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn dilyn cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol dros dro ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn £550 miliwn ychwanegol yn ystod y tair blynedd nesaf, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu sut i wario'r dyraniad hwn. Cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd becyn o gynigion cyllido ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, a fyddai'n cael eu cynnwys yn y gyllideb derfynol. Derbyniodd y Cyngor ei setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018, a oedd yn golygu gostyngiad 0.1% mewn Cyllid Allanol Cyfanredol, neu £258,000, i'r Cyngor hwn. Gwrthbwyswyd hyn gan gyfrifoldebau newydd, ac amcangyfrifwyd mai'r gwir effaith i'r Cyngor fyddai gostyngiad o £1.182 miliwn neu -0.61% o gymharu â 2018-19, ac mai'r gwir sefyllfa i'r Cyngor hwn fyddai gostyngiad o -1.07% neu £2.07 miliwn.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro fod Cyllideb Refeniw derfynol 2019-20 yn cynnwys cynnydd 5.4% yn y Dreth Gyngor yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a adroddwyd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2018, yr ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol i ariannu'r pwysau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor, yn enwedig pwysau sylweddol o ran cyflogau, prisiau a phensiynau.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar gymhariaeth rhwng y gyllideb a'r alldro rhagamcanol ar 31 Rhagfyr 2018, gan ddweud mai'r sefyllfa ragamcanol gyffredinol oedd tanwariant o £5.312 miliwn, yn cynnwys tanwariant net o £592,000 ar Gyfarwyddiaethau a thanwariant net o £6.642 miliwn ar gyllidebau corfforaethol, a wrthbwyswyd gan gronfeydd wrth gefn net newydd wedi'u clustnodi o £1.922 miliwn. Dywedodd fod y sefyllfa hon yn well na'r disgwyl gan fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu grantiau untro yn ddiweddar tuag at y costau sy'n gysylltiedig â chynnal gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, a thuag at gyflogau athrawon ar gyfer 2018-19. Rhan Pen-y-bont ar Ogwr o'r grantiau oedd £620,528 ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a £718,701 ar gyfer cyflogau athrawon. Heb y rhain, byddai'r tanwariant net wedi bod yn £3.973 miliwn. Dywedodd hefyd fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diwygio wrth i wybodaeth ychwanegol ddod ar gael, a bod y manylion ar gyfer blynyddoedd i ddod yn cael eu datblygu dros gyfnod y strategaeth.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wybod i'r Cyngor am ganlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb, sef 'Ffurfio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2018', a dderbyniodd 5,288 o ryngweithiadau. O fewn y rhain, roedd 2,677 wedi cwblhau arolwg, sef 44% yn fwy na'r llynedd. Diolchodd hefyd i'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb am helpu i hwyluso'r broses cynllunio'r gyllideb, a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a arweiniodd at wneud cyfres o argymhellion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w hystyried gan y Cabinet.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y senarios cwtogi'r gyllideb, a dywedodd mai'r senario fwyaf tebygol oedd gostyngiad posibl o £35.181 miliwn yn y gyllideb net yn ystod cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Amlygodd hefyd y cynnydd cyfredol mewn perthynas â nodi cynigion ar gyfer cwtogi'r gyllideb. Bydd nifer o gynigion ar gyfer 2020-21 ymlaen yn gofyn am ragor o wybodaeth a dadansoddi, ac nid ydynt wedi'u datblygu'n ddigon da i gael eu cynnwys ar hyn o bryd.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Cyngor am y gofyniad i'r gyllideb net gyflawni ei swyddogaethau, a ariannwyd o setliad Llywodraeth Cymru ac incwm y Dreth Gyngor, a fyddai'n golygu bod angen cynnydd 5.40% yn y Dreth Gyngor. Yn ogystal, rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wybod i'r Cyngor am bwysau cyflogau, prisiau a demograffeg, a bod cynnydd amcangyfrifedig o 43% yng nghyfraddau cyfraniad y cyflogwr at bensiynau athrawon, a fyddai'n arwain at gost blwyddyn lawn o oddeutu £3.5 miliwn. Mae chwyddiant prisiau wedi cael ei ddyrannu i gyllidebau gwasanaeth ac mae'n cynnwys cynnydd cytundebol mewn costau bwyd, darpariaeth gofal cymdeithasol ac ymrwymiadau eraill.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro, yn dilyn setliad gwell na'r disgwyl yn 2018-19, fod cyllidebau ysgolion wedi'u diogelu rhag y targed effeithlonrwydd blynyddol arfaethedig o 1%, o ystyried y pwysau a ragwelir ar gyllidebau'r Cyngor yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddiad Prif Weinidog Cymru ym mis Tachwedd 2018 ynglŷn â chyllid ychwanegol, a'r setliad terfynol gwell a gafwyd, ynghyd â chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu, mae cyllidebau ysgolion wedi cael eu diogelu unwaith eto rhag y gostyngiad effeithlonrwydd 1% yn 2019-20.

Soniodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro am y pwysau cyllidebol sy'n dod i gyfanswm o £2.191 miliwn, sef pwysau na ellir eu hosgoi a newidiadau cytundebol. Roedd cynigion cwtogi'r gyllideb o £7.621 miliwn wedi cael eu hamlygu o gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol i gyflawni cyllideb gytbwys. Byddai ffioedd a thaliadau'n cael eu cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o leiaf (ar y gyfradd gyffredinol, sef 2.1% ar hyn o bryd) plws 1%.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wybod i'r Cabinet am sefyllfa Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, ac y byddai'r symudiad a ragwelir hyd at 31 Mawrth 2019 ar Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn ostyngiad cyffredinol o £10.925 miliwn. Byddai adolygiad arall yn cael ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, a'r symudiad a ragwelir mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2019-20 yw £7.891 miliwn.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y Rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth Cyllido Cyfalaf ar gyfer 2018-19 i 2028-29, a ddatblygwyd yn unol ag egwyddorion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig, ac sy'n adlewyrchu setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20. Cyllid cyfalaf o £7.665 miliwn, y darperir £3.938 miliwn ohono trwy fenthyca a gefnogir heb ei neilltuo a'r gweddill o £3.727 miliwn fel grant cyfalaf cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys rhan 2019-20 (£30 miliwn) o'r £100 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf cyffredinol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y setliad dros dro. Mae'r Cyngor eisoes wedi derbyn £2.215 miliwn fel ei ran o'r dyraniad £50 miliwn ar gyfer 2018-19. Amlinellodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro y dyraniadau arfaethedig ar gyfer cyllid cyfalaf. Rhoddodd wybod i'r Cyngor hefyd fod y gyfradd ymyrryd ar gyfer cyllido Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol wedi cynyddu o 75% i 80%, ac y byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyllido ysgolion Band B.

Wrth gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, dywedodd y Dirprwy Arweinydd mai cyllid yw'r hyn sy'n cadw'r sefydliad yn fyw a dywedodd fod y cynigion yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi bod yn destun ymgynghoriad ehangach nag erioed. Dywedodd fod gofyniad i ariannu cynnydd 43% mewn cyfraniadau pensiwn athrawon, a bod yr awdurdod yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU er mwyn i'r Trysorlys ariannu'r cynnydd hwn. Diolchodd i'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb am ei waith ar y broses cynllunio'r gyllideb. Dywedodd fod angen i'r Cyngor gynyddu'r Dreth Gyngor 5.4% i ariannu pwysau cyllidebol ychwanegol ac i dalu am ddiffyg £7.62 miliwn mewn cyllid.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am wneud nifer o argymhellion ynglŷn â'r gyllideb, ac i'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb trawsbleidiol am ei ymgysylltiad amhleidiol ac adeiladol a oedd wedi helpu i ffurfio'r gyllideb. Dywedodd y bwriedir gwario £4.5 miliwn o'r cynnydd £4.6 miliwn yn y Dreth Gyngor ar ysgolion. Dywedodd hefyd fod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gorfod cynyddu'r Dreth Gyngor i ariannu gwasanaethau rheng flaen.

Mynegodd Aelod o'r Cyngor bryder bod £4.6 miliwn o arbedion wedi'u categoreiddio'n risg uchel neu'n risg ganolig, sef £1.9 miliwn, y mae 25% ohono'n risg uchel gyda chynlluniau nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn, a £2.7 miliwn, y mae 35% ohono'n risg ganolig gyda chynlluniau sy'n cael eu datblygu ond y ceir amheuaeth ynglŷn â'u darparu, sy'n arwain at £4.6 miliwn o arbedion, y bernir bod 60% ohonynt yn cynrychioli risg. Dywedodd yr Aelod fod y Cyngor eisoes yn rhagweld y bydd angen £7.9 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac os na ddarperir yr arbedion, yr achos gwaethaf yw y bydd angen i'r Cyngor ddefnyddio £12.5 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn, gan adael £24.2 miliwn ar ôl, sef 2 flynedd yn unig o gronfeydd wrth gefn. Aeth yr Aelod ymlaen i ddweud y bydd y sefyllfa hon yn ei gwneud hi'n anodd ceisio dod o hyd i arbedion ychwanegol. Fodd bynnag, yn y byd corfforaethol, ni fyddai'n dderbyniol cael cynllun lle mae 25% o arbedion yn rhai risg uchel a 35% yn rhai risg ganolig, a bod 10% sy'n risg uchel ac 20% sy'n risg ganolig yn fwy derbyniol. Nid oedd yr Aelod o'r farn bod gan y Cyngor gyllideb gytbwys. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor mewn sefyllfa debyg i'r llynedd, ond ei fod yn rhagweld tanwariant eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd y byddai Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf yn cael eu defnyddio ac nid Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol. Rhoddodd wybod i'r Cyngor y byddai'r broses o gynllunio ar gyfer cyllideb y

flwyddyn nesaf yn dechrau'n syth ac y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli. Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Cyngor nad oedd 25% o risgiau uchel yn sefyllfa ddelfrydol, ond y gallai'r risg mewn perthynas â MREC newid yn gyflym. Dywedodd fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion.

Dywedodd Aelod o'r Cyngor fod y gostyngiad yn y ddarpariaeth feithrin yn cael ei ystyried trwy ostyngiadau o £817,000 yn y gyllideb yn 2020/21 a £584,000 yn 2021/22, a holodd ba bryd y bydd ymgynghoriadau'n dechrau ynglŷn â hyn fel y bydd y cynigion hynny'n risg werdd ac isel yn y flwyddyn nesaf. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â pharhad addysg feithrin ac y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar addysg feithrin.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal pleidlais gofnodedig ar y cynigion a gynhwyswyd yn yr adroddiad, ond yn gyntaf, roedd angen pleidlais electronig i weld a oedd consensws o Aelodau o blaid hyn.

Felly, cynhaliwyd pleidlais electronig, a'i chanlyniad oedd:-

| O blaid (pleidlais gofnodedig) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 49 | 3 | 0 |

Derbyniwyd y bleidlais dros bleidlais gofnodedig ac felly fe'i cynhaliwyd, a'i chanlyniad oedd:-

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 32 | 11 | 10 |

| **Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (Cynnig)** | |
|---|---|
| Cynghorydd Sean Aspey | Ymatal |
| Cynghorydd Stuart Baldwin | O blaid |
| Cynghorydd Tom Beedle | Ymatal |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | O blaid |
| Cynghorydd Nicole Burnett | O blaid |
| Cynghorydd Mike Clarke | Ymatal |
| Cynghorydd Norah Clarke | Ymatal |
| Cynghorydd Richard Collins | O blaid |
| Cynghorydd Huw David | O blaid |
| Cynghorydd Paul Davies | O blaid |
| Cynghorydd Pam Davies | O blaid |
| Cynghorydd Sorrel Dendy | Yn erbyn |
| Cynghorydd Keith Edwards | Ymatal |
| Cynghorydd Jane Gebbie | O blaid |
| Cynghorydd Tom Giffard | Yn erbyn |
| Cynghorydd Richard Granville | O blaid |
| Cynghorydd Cheryl Green | O blaid |
| Cynghorydd Gareth Howells | O blaid |
| Cynghorydd Altaf Hussain | Ymatal |
| Cynghorydd Malcolm James | O blaid |
| Cynghorydd Brian Jones | Ymatal |
| Cynghorydd Martyn Jones | O blaid |
| Cynghorydd Mike Kearn | O blaid |
| Cynghorydd David Lewis | O blaid |
| Cynghorydd Janice Lewis | O blaid |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd John McCarthy | O blaid |
| Cynghorydd David Owen | Yn erbyn |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | O blaid |
| Cynghorydd Ross Penhale-Thomas | Ymatal |
| Cynghorydd Aniel Pucella | Yn erbyn |
| Cynghorydd Kay Rowlands | Yn erbyn |
| Cynghorydd Bridie Sedgebeer | O blaid |
| Cynghorydd Rod Shaw | O blaid |
| Cynghorydd Charles Smith | O blaid |
| Cynghorydd Stephen Smith | O blaid |
| Cynghorydd John Spanswick | O blaid |
| Cynghorydd Roz Stirman | Yn erbyn |
| Cynghorydd Gary Thomas | O blaid |
| Cynghorydd Tim Thomas | Ymatal |
| Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE | O blaid |
| Cynghorydd Elaine Venables | Yn erbyn |
| Cynghorydd Sadie Vidal | Yn erbyn |
| Cynghorydd Matthew Voisey | Yn erbyn |
| Cynghorydd Lyn Walters | Yn erbyn |
| Cynghorydd Ken Watts | O blaid |
| Cynghorydd Carolyn Webster | Yn erbyn |
| Cynghorydd David White | O blaid |
| Cynghorydd Philip White | O blaid |
| Cynghorydd Alex Williams | O blaid |
| Cynghorydd Amanda Williams | Ymatal |
| Cynghorydd Hywel Williams | O blaid |
| Cynghorydd Julia Williams | O blaid |
| Cynghorydd Richard Young | O blaid |
| **Cariwyd** | |

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23, gan gynnwys cyllideb refeniw 2019-20 a Rhaglen Gyfalaf 2018-19 i 2028-29, ac yn arbennig, cymeradwyodd yr elfennau penodol canlynol:

- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23;
- Y Gofyniad Cyllideb Net o £270,808,634 yn 2019-20;
- Treth Gyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £2,470.87 ar gyfer 2019-20;
- Cyllidebau 2019-20 fel y'u dyrannwyd yn unol â Thabl 9 ym mharagraff 3.3 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- Y Rhaglen Gyfalaf 2018-19 i 2028-29, a atodwyd i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad G.

282. Y DRETH GYNGOR 2019-20

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y gofyniad Treth Gyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, ynghyd â gofynion Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chynghorau Tref / Cymuned.

Amlinellodd sut oedd y Cyngor yn bwriadu gwario'r Gyllideb Refeniw Net o £270.809 miliwn ar gyfer 2019-20 a gymeradwywyd ganddo yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor. Y swm

i'w ariannu o'r Dreth Gyngor yw £79,001,854 miliwn, sy'n cyfateb i Dreth Gyngor o £1,470.87 ar eiddo Band D, sef cynnydd o 5.4%. Byddai'r gyllideb net hefyd yn cael ei hariannu trwy Grant Cynnal Refeniw o £145,354,407 ac Ardrethi Annomestig o £46,452,373.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi rhoi gwybod i'r Cyngor y bydd ei braesept ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020 yn cynyddu i £13,831,719, sy'n cyfateb i Dreth Gyngor o £257.52 ar eiddo Band, gan arwain at gynnydd o 10.28%. Dywedodd fod y cynnydd yn unol â chyhoeddiad diweddar gan y Swyddfa Gartref a oedd yn dyblu hyblygrwydd y praesept ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sy'n atebol yn lleol trwy roi'r rhyddid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ofyn am £2 ychwanegol y mis yn 2019-20, ac i gynyddu eu praesept Band D £24 yn 2019-20 heb fod angen galw refferendwm lleol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y gofyniad Treth Gyngor fesul Cyngor Tref a Chymuned.

Heriodd Aelod o'r Cyngor y ffordd yr oedd cynrychiolydd y Cyngor ar Banel y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi pleidleisio. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet dros Gymunedau wrth y Cyngor ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnydd 10.28% gan na allai dderbyn lefel uchel y cynnydd a pholisi'r Swyddfa Gartref a oedd wrth wraidd y cynnydd hwnnw. Dywedodd fod cyllideb yr heddlu wedi cael ei chwtogi flwyddyn ar ôl blwyddyn ac nad oedd y Swyddfa Gartref wedi cydnabod y dylai Heddlu De Cymru dderbyn ychwanegiad am blismona prifddinas, yn wahanol i'r heddluoedd sy'n plismona prifddinasoedd Caeredin a Belfast.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal pleidlais gofnodedig ar y cynigion a gynhwyswyd yn yr adroddiad, ond yn gyntaf, roedd angen pleidlais electronig i weld a oedd consensws o Aelodau o blaid hyn.

Felly, cynhaliwyd pleidlais electronig, a'i chanlyniad oedd:-

| O blaid (pleidlais gofnodedig) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 39 | 8 | 1 |

Derbyniwyd y bleidlais dros bleidlais gofnodedig ac felly fe'i cynhaliwyd, a'i chanlyniad oedd:-

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal | Dim Pleidlais |
|---|---|---|---|
| 40 | 9 | 1 | 3 |

| **Cymeradwyo Treth y Cyngor 2019-20 (Cynnig)** | |
|---|---|
| Cynghorydd Sean Aspey | O blaid |
| Cynghorydd Stuart Baldwin | O blaid |
| Cynghorydd Tom Beedle | O blaid |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | O blaid |
| Cynghorydd Nicole Burnett | O blaid |
| Cynghorydd Mike Clarke | Yn erbyn |
| Cynghorydd Norah Clarke | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd Richard Collins | O blaid |
| Cynghorydd Huw David | O blaid |
| Cynghorydd Paul Davies | O blaid |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Pam Davies | O blaid |
| Cynghorydd Sorrel Dendy | Ymatal |
| Cynghorydd Keith Edwards | O blaid |
| Cynghorydd Jane Gebbie | O blaid |
| Cynghorydd Tom Giffard | Yn erbyn |
| Cynghorydd Richard Granville | O blaid |
| Cynghorydd Cheryl Green | O blaid |
| Cynghorydd Gareth Howells | O blaid |
| Cynghorydd Altaf Hussain | Yn erbyn |
| Cynghorydd Malcolm James | O blaid |
| Cynghorydd Brian Jones | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd Martyn Jones | O blaid |
| Cynghorydd Mike Kearn | O blaid |
| Cynghorydd David Lewis | O blaid |
| Cynghorydd Janice Lewis | O blaid |
| Cynghorydd John McCarthy | O blaid |
| Cynghorydd David Owen | O blaid |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | O blaid |
| Cynghorydd Ross Penhale-Thomas | O blaid |
| Cynghorydd Aniel Pucella | Yn erbyn |
| Cynghorydd Kay Rowlands | Yn erbyn |
| Cynghorydd Bridie Sedgebeer | O blaid |
| Cynghorydd Rod Shaw | O blaid |
| Cynghorydd Charles Smith | O blaid |
| Cynghorydd Stephen Smith | O blaid |
| Cynghorydd John Spanswick | O blaid |
| Cynghorydd Roz Stirman | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd Gary Thomas | O blaid |
| Cynghorydd Tim Thomas | O blaid |
| Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE | O blaid |
| Cynghorydd Elaine Venables | O blaid |
| Cynghorydd Sadie Vidal | Yn erbyn |
| Cynghorydd Matthew Voisey | Yn erbyn |
| Cynghorydd Lyn Walters | Yn erbyn |
| Cynghorydd Ken Watts | O blaid |
| Cynghorydd Carolyn Webster | Yn erbyn |
| Cynghorydd David White | O blaid |
| Cynghorydd Philip White | O blaid |
| Cynghorydd Alex Williams | O blaid |
| Cynghorydd Amanda Williams | O blaid |
| Cynghorydd Hywel Williams | O blaid |
| Cynghorydd Julia Williams | O blaid |
| Cynghorydd Richard Young | O blaid |
| **Cariwyd** | |

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Cyngor:

- Dreth Gyngor Band D o £1,470.87 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a
- Thaliadau'r Cyngor ar gyfer eiddo Band D yn 2019-20 ym mhob un o'r ardaloedd cymunedol fel y'u hamlinellir yn Nhabl 6 yr adroddiad.

283. STRATEGAETHAU RHEOLI TRYSORLYS A CHYFALAF AR GYFER 2019-20 YMLAEN

Ceisiodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro gymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019-20, sy'n cynnwys y Dangosyddion Rheoli Trysorlys, Strategaeth Gyfalaf 2019-20 i 2028-29, sy'n cynnwys y Dangosyddion Darbodus a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Cod Darbodus diwygiedig yn gosod gofyniad newydd ar awdurdodau lleol i bennu Strategaeth Gyfalaf, i'w chymeradwyo gan y Cyngor, sy'n dangos bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar fuddsoddi a gwariant cyfalaf yn unol ag amcanion gwasanaeth a'i fod yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, gochelgarwch, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. O ganlyniad i newidiadau i'r Codau, bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus a bydd y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys y Dangosyddion Rheoli Trysorlys yn unig.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019-20 yn cadarnhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer, sy'n mynnu bod amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr ar waith i reoli gweithgareddau rheoli trysorlys yn effeithiol, ac mai prif amcanion y gweithgareddau hyn yw rheoli risg yn effeithiol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Cynlluniau Cyfalaf yn dangos bod y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) Benthyciadau, sef angen y Cyngor i fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf, yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn o ganlyniad i fenthyca darbodus ychwanegol ynghyd â gostyngiad mewn cyfleoedd benthyca mewnol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, ac mai'r ffigur benthyca newydd yw £29 miliwn. Dywedodd mai un o'r amcanion yw cyflawni cydbwysedd rhwng risg ac adenillion.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Cyngor yn cynllunio gwariant cyfalaf o £36.157 miliwn yn 2019-20 yn y Strategaeth Gyfalaf, a rhoddodd fanylion ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn bwriadu ariannu'r gwariant hwn. Amlygodd hefyd sut y bydd mwy o bwysau refeniw ar y cyllidebau ariannu cyfalaf yn ystod cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gyda gorwariant rhagamcanol o £595 miliwn yn 2021-22. Dywedodd Prif Gyfrifydd y Rheolwr Grŵp mai dyna fyddai'r achos gwaethaf, gyda benthyca digymorth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, ond y byddai'r awdurdod yn ceisio lleihau hynny. Bydd y Cyngor yn ceisio lleihau'r pwysau refeniw i'r eithaf trwy gynyddu adnoddau cyfalaf amgen i'r eithaf, fel cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a derbyniadau cyfalaf.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Cyngor:

- Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019-20, gan gynnwys Dangosyddion Rheoli Trysorlys 2019-20 i 2021-22;
- Strategaeth Gyfalaf 2019-20, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus 2019-20 i 2021-22;
- Datganiad Darpariaeth Refeniw Leiaf Flynyddol (MRP) 2019-20; a'r
- diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad.

284. Y DRETH GYNGOR: GOSTYNGIAD DEWISOL YN Y DRETH GYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar gynnig i ddiwygio lefel y gostyngiad dewisol sydd ar gael ar y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi, yn weithredol o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Cyngor fod Deddf Llywodraeth Leol 2003 wedi rhoi grymoedd dewisol i awdurdodau lleol leihau neu ddileu'r gostyngiad 50% yn y Dreth Gyngor ar anheddau heb eu meddiannu ac anheddau heb fawr o ddodrefn ynddynt y gellir codi'r Dreth Gyngor arnynt ar ôl i'r cyfnod esemptio 6 mis cychwynnol ddod i ben, a adwaenir fel eiddo Dosbarth C. Dywedodd fod y Cyngor hwn wedi rhoi gostyngiad 50% yn flaenorol i eiddo a allai berthyn i'r categori hwn. Dim ond 10 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n parhau i roi gostyngiad 50% ar ôl y cyfnod esemptio 6 mis cychwynnol.

Amlygodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro y categorïau eiddo gwag y mae'r Cyngor yn rhoi gostyngiad 50% iddynt ar y Dreth Gyngor. Amlinellodd gynnig i ddileu'r grym dewisol i roi gostyngiad a chodi 100% o'r Dreth Gyngor ar y categorïau a amlinellwyd o 1 Ebrill 2019 ymlaen, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 ymlaen, a fyddai, yn ei dro, yn annog perchenogion eiddo gwag i beidio â chaniatáu iddynt aros yn wag ac i'w cyflwr ddirywio. Dywedodd y bydd angen cyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'r newid hwn o fewn 21 o'r penderfyniad.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyngor:

- Yn cytuno i barhau i beidio â rhoi gostyngiad yn y Dreth Gyngor ar ail gartrefi, heblaw lle y caniateir y gostyngiad yn achos annedd sy'n gysylltiedig â swydd;
- Yn cymeradwyo lefel newydd o 100% o'r Dreth Gyngor sy'n daladwy ar gyfer pob categori a grybwyllwyd yn yr adroddiad yn 4.1 sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis;
- Yn dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Refeniw weithredu'r newidiadau.

285. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:37